



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Mawrth 2014
Rhifyn 205

Oedfaon mis Mawrth

2 Mawrth: Bore: **Y Gweinidog** Oedfa deulu Gŵyl Ddewi a chynhelir bwrdd gwerthu Masnach Deg. Hwyr (4pm) - Uno yn **Salem**

9 Mawrth: Bore a Hwyr - **Dr Rhodri Glyn**
Bydd bocs bwyd yn y cyntedd.

16 Mawrth: Bore: **Mr Gwilym Williams, Llangejni**
Hwyr: **Y Parchg Cath Williams**
Bydd bocs bwyd yn y cyntedd

23 Mawrth: Bore a Hwyr - **Y Parchg Eifion Roberts, Aberystwyth**

30 Mawrth: Bore a Hwyr: **Y Gweinidog** Sul y Fam.
Oedfa deulu yn y bore

6 Ebrill : Bore: **Y Parchg Gerallt Lloyd Evans** Hwyr:Uno yn Salem (5). Cymun

Digwyddiadau Mis Mawrth

Nos Lun 3 Mawrth (7.30pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol:**
Swper Gŵyl Ddewi gyda Gwenan Gibbard

Nos Lun 10 Mawrth (7.pm) - **Cymdeithas Chwiorydd Seilo**
Sgwrs gan Menna Jones ar Antur Waunfawr
Cynhelir y cinio blynyddol nos Lun 7 Ebrill yn y Clwb Golff.
Pris £15. Cesglir enwau (ac arian) nos Lun 10 Mawrth.

Nos Fercher 12 Mawrth (7pm) - **Seiat y Grawys** yn Salem.
Thema: 'Cymorth oddi wrth yr Arglwydd'

Bore Mawrth 18 Mawrth (11.15am) **Seiat y Grawys** yn Salem. Thema: 'Urddas i bawb'

Dydd Mawrth 25 Mawrth (11am) yn Salem:
Cyfarfod i drafod Wythnos Cymorth Cristnogol 2014

Nos Fercher 26 Mawrth yng Nghapel y Maes: **Seiat y Grawys**. Thema: Sul y Fam / Stori Ruth. (Bydd y cyfarfod yn Saesneg)

Nos Fercher 2 Ebrill (7pm) **Seiat y Grawys** yn Noddfa. Thema: Sefyll dros eich hawliau

Seiat yn Seilo - mae cyfarfodydd y seiat wedi darfod am y tymor, ond mae cyfres Seiadau'r Grawys dan ofal y Cyngor eglwysi ar fin cychwyn.

Y Gell Weddi bob dydd lau am 10.30am

Taro Mewn yn Salem bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11 am

PWDIN A PHANAD

Nos Fawrth 1 Ebrill (6.30—8.30pm)

Adloniant gan blant yr ysgol Sul /Pris tocyn: £3 (oedolion) / £1 (plant)

Yr elw at Eglwys Seilo a'r ysgol Sul

Am Eiliad

Bron i flwyddyn yn ôl bellach derbyniais wahoddiad annisgwyl i bregethu unwaith eto ym Mryniau Casia. Fe gofiwch i mi ac Elwyn gael y fraint o deithio i Shillong yn 2010 a hynny fel rhan o'm dyletswyddau fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Y tro hwn, Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaidd yr India sy'n gwahodd, ac yn ôl a ddeallaf byddaf yn pregethu mewn oedfa sy'n cyfateb i Sasiwn y Chwiorydd yma yng Nghymru, ond ei bod ar raddfa llawer mwy na'n sasiwnau ni bellach. Mae rhai ohonoch chi'r chwiorydd yn cofio'r Sasiwn yn ei bri pan oedd angen tri chapel i'w chynnal. Erbyn hyn, ysywaeth, prin ein bod yn llenwi un capel!

Byddwn yn cychwyn ar ein taith ddydd Mawrth 1leg o'r mis hwn, yn teithio i Lundain ar y diwrnod hwnnw ar gyfer dal yr awyren yn Heathrow yn gynnar bore trannoeth. Bydd gennym ddiwrnod cyfan o deithio cyn cyrraedd maes awyr Guwahati am 10.30 o'r gloch fore dydd Iau. Taith o ryw bedair awr wedyn, fwy neu lai, i fyny i'r Bryniau. Deil y daith honno bedair blynedd yn ôl yn fyw iawn yn y cof gan fod ceir ar y ffyrdd yno yn goddiweddyd ar y chwith a'r dde, a bod pob car yn cystadlu â beiciau a lorïau, pobol ac anifeiliaid! Fydd dim amdani ond gwneud yr hyn a wnaethom y pryd hwnnw, sef cau'n llygaid a gobeithio'r gorau!

Byddwn yn Shillong am ddiwrnod cyn teithio oddi yno i bentref bach gwledig o'r enw Mynso ble cynhelir y Synod. Oddi yno fe awn i Jowai a Cherrapunji

cyn teithio'n ôl i Shillong a threulio rhyw bedwar diwrnod yno cyn yn teithio'n ôl i Gymru ar y 24ain o Fawrth.

Yn ystod ein hymweliad byddwn yn ymweld â chartref plant amddifad Annie Thomas yn Shillong a Chartref Plant Amddifad William Lewis yn Mawphlang, yn ogystal ag Ysbyty Goffa Dr Gordon Roberts yn Shillong. Ein braint fydd cyflwyno'r arian a gasglwyd yn ystod y pedair blynedd diwethaf i'r tri sefydliad. Yn 2022 bydd yr ysbyty yn dathlu ei chanmlwyddiant ac fel rhan o'r dathliadau mae'n fwriad codi estyniad i'r ysbyty fydd yn cynnwys adran famolaeth. Fel y gwyddoch, mae'r ysbyty, sy'n gwasanaethu ardal eang, yn dibynnu'n helaeth ar gyfraniadau gwirfoddol.

Carwn ddiolch i bawb am bob cefnogaeth i'r apêl a gyrhaeddodd gyfanswm o £10,000. Gwn y caiff yr arian dderbyniad gwresog a'i ddefnyddio i gynorthwyo trigolion tlawd Shillong a'r cyffiniau.

Byddwn yn mynd â'ch dymuniadau da at y chwiorydd o Fryniau Casia a fu'n aros yng Nghaernarfon yn ystod mis Mai 2012. Fe gofiwch eu henwau: Sweet Mary, Twilight, Dei, Wei, Bliss, Hiarmon, Wye Bakor, Gloria a Hana. Byddant yn aml yn holi am eu cyfeillion yng Nghymru ac yn arbennig yng Nghaernarfon.

Freuddwydiais i erioed y cawn gyfle arall i deithio i Ogledd-ddwyrain yr India ac ymweld eilwaith â'r manau hynny y clywais gymaint o sôn amdanynt yn nyddiau fy mhlentynod. Bedair blynedd yn ôl roeddem yn

teithio i'r anwybod, y tro hwn rydym yn dychwelyd at ffrindiau, a gwn y bydd croeso gwresog yn ein disgwyl.

Gwenda Richards

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau da at **Mrs Phyllis Williams**, Y Fedwen, Bontnewydd ac at **Mr Ken Francis**, 16 Bryn Rhos, Rhosbodrual, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd, a hefyd at **Mrs Menna Thomas**, Wigoedd, Parc Muriau, sydd yn parhau i wella yn Ysbyty Eryri. Derbyniodd **Mrs Pam Roberts**, Garreg Las, Cae Gwyn, driniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Maelor. Roedd yn ddrwg iawn gennym ddeall bod **Mrs Beryl Jones**, Tegfan, 41 Rhes Assheton, yn Ysbyty Gwynedd o ganlyniad i ddamwain yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddynt oll.

Da yw deall bod **Mr Meirion Hughes**, 34 Stryd Garnon, wedi gadael Ysbyty Eryri, a'i fod yn treulio cyfnod yng Nghartref Foelas, Llanrug.

Allweddi'r Capel

Fe gofiwch i ni apelio'n ddiweddar i bawb sydd ag allwedd y capel yn ei feddiant i gysylltu â Dr Gwyn Lewis (676651). Mae cwmni yswiriant y capel yn mynnu bod gennym gofnod manwl o bawb sy'n berchen ar allwedd. Mae hyn yn hynod o bwysig ac apeliwn am eich cydweithrediad.

Seiadau'r Grawys

Bydd Seiadau'r Grawys eleni yn dilyn Cwrs Grawys Cymorth Cristnogol 'Cyfrif Ein Bendithion'. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Fercher 12 Mawrth yn Salem (7 pm); yr ail yn Salem am 11.15 o'r gloch fore Mawrth 18 Mawrth (yn syth ar ôl Taro Mewn). Bydd y trydydd cyfarfod yng Nghapel y Maes am 7 o'r gloch nos Fercher 26 Mawrth. (Bydd hwn yn gyfarfod trwy gyfrwng y Saesneg). Yna Nos Fercher 2 Ebrill am 7 o'r gloch yn Noddfa, ac ar 9 Ebrill am 10.30 o'r gloch yn Seilo. Bydd oedfa Nos Iau Cablyd yn Eglwys y Santes Fair ac oedfa Dydd Gwener y Groglith yn Ebeneser. Cynhelir oedfa undebol nos Sul y Pasg yn Seilo. Sylwer: Gall lleoliadau'r seiadau newid

Dosbarthiadau Derbyn

Bwriada'r gweinidog gynnal Dosbarthiadau Derbyn yn ystod y flwyddyn. Gofynnir i ieuencid yr eglwys sy'n awyddus i gael eu derbyn gysylltu â'r Gweinidog (ar ôl 26 Mawrth).

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am flodau'r capel yn ystod mis Mawrth: Mrs. Sioned Clwyd Jones (2); Mrs. Edwina Morgan (9); Mrs. Kitty Roberts (16); Mrs. Margaret Williams (23); Mrs. Marian Wyn Jones (30).

Cymdeithas y Chwiorydd

Cawsom noson arbennig iawn ar nos Lun Chwefror 10^{fed} yng nghwmni un o aelodau Seilo sef Mrs Eurwen Williams, sy'n gweithio fel cogyddes yn Ysgol Brynrefail. Llywydd y noson oedd Miss Dorothy Williams ac estynnodd groeso i Eurwen a'i chynorthwywyr Morfudd a Falmai. Testun y sgwrs oedd Bwyd Blasus ac wrth i bawb gyrraedd y cyfarfod roedd y bwrdd yn yr Ystafell Gymdeithasol yn wledd i'r llygaid.

Dangosodd Eurwen i ni sut y gellid mynd ati i baratoi mathau gwahanol o fwydydd, o'r cwrs cyntaf i'r prif gwrs a'r pwдинаu. Cawsom lu o syniadau ganddi ar ba gynhwysion i'w defnyddio, sut i'w coginio a chyflwyno'r bwyd yn ddeniadol a'r cyfanwaith yn tynnu dŵr o ddannedd. Cawsom gyfle hefyd i brofi rhai o'r danteithion blasus.

Uchafbwynt y noson oedd gweld Eurwen yn addurno teisen siâp calon oedd wedi'i pharatoi'n arbennig ar gyfer Gŵyl Sant Ffolant a'r aelod lwcus a enillodd y deisen oedd Mrs Helena Jones Owen.

Diolchodd Dorothy i Eurwen am noson wych, am y paratoi manwl a'r cyflwyno arbennig. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun Mawrth 10^{fed}, pan fyddwn yn croesawu Menna Jones o Antur Waynfawr.

D.S.

Ar y noson hon hefyd byddwn yn casglu enwau ar gyfer ein cinio blynyddol a gynhelir nos Lun

Ebrill 7^{fed} yn y Clwb Golff ac nid ar Fai 12^{fed} fel yr ymddengys yn y rhaglen.

Marian Parry Jones

Y Gymdeithas Lenyddol

Cafwyd noson i'w chofio yn y Gymdeithas Lenyddol a gynhaliwyd ar nos Lun, Chwefror 3 yng nghwmni'r newyddiadurwraig a'r bardd Karen Owen o Benygroes. Llywyddwyd y noson gan y Dr Gwyn Lewis a gyflwynodd Karen fel person amryddawn, llawn brwdfrydedd a enillodd radd mewn Mathamateg ond a drodd at newyddiaduraeth am ei bywoliaeth.

Mwynhawyd ganddi straeon difyr a chyflwynodd ei gwaith barddonol, caeth a rhydd, dwys ac ysgafn, mewn modd hynod fyrlymus gan roi i ni y cefndir i'w cherddi. Cynnwys ei barddoniaeth brofiadau a gafodd yn ystod ei bywyd a'r hyn a etifeddodd o'i gorffennol, a chred fod gennym ni ddyletswydd i wneud bywyd yn well i'r rhai a ddaw ar ein holau.

Noddwyd y noson gan Llenyddiaeth Cymru. Diolchwyd i Karen am y noson wych, ac i ferched y te, gan y Llywydd.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn Mawrth 20 fed

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865